**Cofnodion y Grŵp Trawsbleidiol ar Sepsis**

Dyddiad: Dydd Mercher 16 Tachwedd 2016

Amser: 12.15 –13.15

Lleoliad: Tŷ Hywel, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Yn bresennol: Angela Burns AC, Julie Morgan AC, Dai Lloyd AC, Terence Canning (Cyfarwyddwr Cymru, Ymddiriedolaeth Sepsis y Deyrnas Unedig), Mike Bryan, David Melding AC, Rhiannon Passmore AC, Keith Jones, Janet Finch-Saunders AC, Russell George AC, Nick Ramsay AC, Mark Isherwood AC, Peter Wong, Duncan Higgit, Dr Paul Morgan, Dr Paul Mizen, Dr Chris Jones, Dr Richard Jones, Dr Chris Subbe, Dr Harriet Hughes, Gemma Ellis, Ceri Stubbs, Lisa Miller, Jan Barrett, Rachel Williams , Sophie Jones, Vanessa Jones, Chris Moore, Sian Jeffries, Michelle Christopher, John James, Joy James, Jayne Carpenter, Rob Carpenter, Siobhan Corria, Nesta Lloyd-Jones.

Ymddiheuriadau: Dr Andrew Goodall (Prif Weithredwr GIG Cymru), Chris Hancock (Arweinydd Rhaglen, 1000 o Fywydau)

Cadeirydd: Angela Burns AC

- Angela Burns (AB) - croesawodd aelodau'r Grŵp, a rhoddodd drosolwg byr o fwriadau'r Grŵp ar ôl ei sefydlu. Datganodd y byddai'r Grŵp hwn yn cael ei sefydlu, ac y byddai'n bodoli, am oes y Cynulliad hwn yn unig, gan y byddai'r Grŵp yn gobeithio cyflawni ei nodau a'i amcanion o fewn y terfyn amser hwnnw.
- Terence Canning (TC) yn gofyn am enwebu AB fel cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Sepsis.
    - Cafwyd yr enwebiad gan Nick Ramsay AC
    - Eiliwyd gan Rhiannon Passmore AC
- AB wedi'i hethol yn ffurfiol fel Cadeirydd
- AB yn enwebu Terence Canning (TC) fel ysgrifenyddiaeth y Grŵp. Eiliwyd hyn gan Rhiannon Passmore AC.
- Enwyd y ddau aelod arall o'r grŵp, sef Julie Morgan AC (Llafur) a Dai Lloyd AC (PC)
- Rhoddodd TC drosolwg byr o'i brofiad ef a pham ei fod yn awyddus i sefydlu Grŵp Trawsbleidiol, cyn iddo gyflwyno Dr Paul Morgan (PM)
- PM yn rhoi cyflwyniad byr ar sepsis a'r sefyllfa yng Nghymru ar hyn o bryd.
- TC yn cyflwyno John James, sy'n rhannu ei brofiad o oroesi sepsis, ac yn nodi'r materion sy'n parhau gydag Anhwylder Straen Wedi Trawma.
- TC yn cyflwyno Jayne Carpenter, sy'n rhannu ei phrofiad hi. Eglurodd JC sut y bu iddi golli dwy goes a braich o ganlyniad i sepsis.
- Yna roedd y cyfarfod yn agored i'r gynulleidfa, a chafwyd trafodaeth a sylwadau amrywiol.
- Penderfynwyd, a chadarnhaodd AB, y dylai prif nod a chwmpas y Grŵp Trawsbleidiol ar Sepsis ar gyfer oes y Cynulliad hwn ganolbwyntio ar ffyrdd o:
    - Godi Ymwybyddiaeth y Cyhoedd / Cymunedau
    - Cefnogi teuluoedd yn ogystal â dioddefwyr sepsis
    - Y Grŵp hefyd i ystyried edrych ar effeithiolrwydd safoni'r broses o ran sepsis, o bosibl.

- Daeth y cyfarfod agoriadol i ben yn ffurfiol, a soniwyd am ddyddiad y cyfarfod arfaethedig nesaf ym mis Mawrth 2017.